

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 40
RHAGFYR 2010

Rhyw fis yn ôl bûm yn y ‘Drwm’ yn y Llyfrgell Genedlaethol yn gwrando ar Jan Morris. Cawsom noson ddifyr yn ei chwmni  a braf oedd cael gwrando ar yr awdures fyd-enwog yn darllen pytiau o un o’i chyfrolau diweddaraf ac yn ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa. Roedd y noson wedi ei threfnu fel rhan o raglen o ddigwyddiadau i gyd-fynd â’r arddangosfa ‘Byd Bach: teithio yng Nghymru a thu hwnt,’ yn y Llyfrgell Genedlaethol. Roeddwn yn awyddus i wrando ar Jan Morris nid am fy mod yn gyfarwydd â’i chyfrolau ond am fy mod yn chwilfrydig i wrando ar y person oedd wedi cyhoeddi i’r byd dros hanner canrif yn ôl fod Edmund Hillary a Tenzing wedi cyrraedd copa Mynydd Everest yn y flwyddyn 1953.  Ar y pryd roedd Jan Morris yn ohebydd gyda phapur newydd y *Times* ac wedi teithio gyda’r Tîm Prydeinig i Wersyll Cychwyn (Base Camp), Everest.  Pan dderbyniodd gadarnhad fod Hillary a Tenzing wedi cyrraedd y copa fe anfonodd neges mewn côd i’r *Times* fel hyn: *Snow conditions bad* STOP *yesterday advanced base abandoned* STOP *awaiting improvement.*  Roedd y gwaith o gyhoeddi’r newyddion yma yn  gyfrifoldeb aruthrol am ei fod yn achlysur hanesyddol ac yn destun llawenydd mawr ond hefyd am y llwyddodd Jan Morris i sicrhau bod y byd i gyd yn gwybod am gamp aruthrol Hillary a Tenzing.

Tymor y cyhoeddi ar lawer ystyr yw tymor yr Adfent. Dyma’r adeg pan fyddwn yn cofio am yr angel Gabriel yn cyhoeddi i Sachareias   ddyfodiad Ioan Fedyddiwr ac hefyd yn cyhoeddi i Mair y byddai hi yn esgor ar fab. Meddai Gabriel wrthi: ‘Paid ag ofni Mair, oherwydd cefaist ffafr gyda Duw; ac wele, byddi’n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu. Bydd hwn yn fawr, a Mab Goruchaf y gelwir ef; rhydd yr Arglwydd Dduw iddo orsedd Dafydd ei dad, ac fe deyrnasa ar dŷ Jacob am byth, ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.’

Mae yna gyfrifoldeb arnom ninnau hefyd yn ystod y tymor hwn i gyhoeddi dyfodiad Crist i’n byd yng nghanol ein holl baratoadau ar gyfer gŵyl y Nadolig.  Dylem wneud hynny nid yn unig am fod y cyhoeddiad yn ddigwyddiad hanesyddol ac yn destun o lawenydd mawr, ond am fod y Crist yn dal i gael ei eni ym mywydau pobl heddiw, a hynny yng Nghymru a thu hwnt:

‘ganwyd ef, O ryfedd drefn,
fel y genid ni drachefn!
Clywch lu’r nef yn seinio’n un,
henffych eni Ceidwad dyn!’

(Charles Wesley, *cyf* Elis Wyn o Wyrfai)

Pob bendith dros y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939       E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR MIS RHAGFYR 2010**

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr y Mis: Sandra Beechey | Organydd y Mis: Ceris Gruffudd | |
| 5ed Rhagfyr 2.30yp | Oedfa Gymun | Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue Hughes |
| 12fed Rhagfyr 10.30yb | Oedfa'r Garol a'r Gair **D.S. Fe fydd y plant yn ymarfer yn y festri ar gyfer yr Oedfa Nadolig.** | |
| 19eg Rhagfyr 2.30yp | Oedfa Nadolig | Gofal y Te: |
| 25ain Rhagfyr 7.30yb | Oedfa Gymun Dydd Nadolig | Bwrdd y Cymun: |
| 26ain Rhagfyr 10.30yb | Oedfa Gŵyl San Steffan | |
| 28ain Rhagfyr 7.30yh | Cwrdd Gweddi Misol | |
| 2ail Ionawr 2.30yp | Oedfa Gymun Flwyddyn Newydd | Bwrdd y Cymun: Rhiannon Humphreys a Carwen Fychan |

**I'CH DYDDIADUR**

6 Rhagfyr : Cinio Cymorth Cristnogol : Neuadd Eglwys Llanbadarn: 12.00-1.30yp
8 Rhagfyr : Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys: Horeb yn gyfrifol am weini
15 Rhagfyr : Cinio Cymdeithas Bethel yn y Ffarmers, Llanfihangel-y-Creuddyn
15 Rhagfyr: Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys
15 Rhagfyr : Clwb Ieuenctid 'Os Mêts' yn canu Carolau yn Nhregerddan (6.30) ac Afallen Deg(7.30)
16 Rhagfyr : Plygain traddodiadol o dan nawddd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan am 7.30yh
17 Rhagfyr: Clwb Ieuenctid 'Os Mêts' yn canu carolau tu fas i Siop y Pethe am 4.30yp
18 Rhagfyr : Ffair Nadolig Bethel
20 Rhagfyr : Canu Carolau o gwmpas wardiau Ysbyty Bronglais. Byddwn yn cyfarfod yng nghapel yr ysbyty am 6yh. Croeso i bawb.
22 Rhagfyr : Oedfa Nadolig Ysgol Penweddig yn Seion, Stryd y Popty am 10.30yb

**LLOFFION**

**Pen-blwydd hapus** i Mrs Elen Sheppard a ddathlodd ben-blwydd arbennig ym mis Tachwedd.

**Dymuniadau gorau** i Mrs Hilary Thomas a Mr Victor Bolt sydd wedi bod yn yr ysbyty.

**Dymuniadau gorau** i Miss Anne Roberts wrth iddi gael ei hordeinio yn weinidog yn Eglwys Watergate, Aberhonddu ar yr 11eg o Ragfyr. (Bu Anne yn genhades gyswllt Bethel a Horeb am sawl blwyddyn tra roedd hi yn gwasanaethu yn Albania gyda'r BMS).

**Cyfarchion Nadolig :** Os hoffech anfon cyfarchion Nadolig at Sarah Garnes sydd adref ar hyn o bryd o'i gwaith yn Tunisia, gweler y cyfeiriad isod:
Sarah Garnes: d/o Sunny Cottage, Stryd yr Ysgol, Llanon, Ceredigion. SY23 5HX
(Cofiwch hefyd fod Sarah yn dathlu ei phen-blwydd ar y 30ain o Ragfyr).

**Croeso i'r Oedfaon:** Os nad ydych wedi bod mewn oedfa ers tro, beth am droi i fewn atom? Mae yna groeso cynnes yn eich disgwyl ac fe fyddem yn falch o'ch gweld bob amser. Cofiwch am yr oedfa deuluol ar yr ail Sul bob mis.

**Cyfraniadau 2010**: Y mae'r trysorydd yn awyddus i gau llyfrau'r eglwys yn brydlon ar y Sul olaf ym mis Rhagfyr ac fe fyddai'n gwerthfawrogi pe bai'r aelodau yn medru cwblhau eu cyfraniadau cyn gynted ag y bo modd.